GREEN
GEN
CYMRU

# TALU FFIOEDD ASIANTAU PROFFESIYNOL



greengencymru.com



# Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r sail ar gyfer asesu ffioedd asiantau proffesiynol sy'n cael eu had-dalu gan Green Gen Cymru.

Mae Green Gen Cymru yn cytuno i ad-dalu ffioedd asiant proffesiynol a godwyd yn rhesymol ar gyfer partïon â diddordeb sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan unrhyw brosiect Green Gen Cymru.

Bydd ffioedd asiantau proffesiynol yn cael eu had-dalu naill ai ar sail ffi sefydlog, cap ffi, neu lle cytunir, cyfradd fesul awr a fydd â chap yn cael ei gymhwyso iddi yn dibynnu ar natur y gwaith.





# Ffioedd yn seiliedig ar gam y gwaith

Cyfeiriwch at y strwythurau ffioedd isod wrth gytuno ar ffioedd gyda'ch asiant/parti â diddordeb. Mae'r strwythurau ffioedd isod yn cwmpasu gwaith y gallai asiant fod yn rhan ohono. Fodd bynnag, os oes unrhyw ansicrwydd cysylltwch â Green Gen Cymru neu eu cynrychiolwyr cyn mynd i unrhyw amser neu gost.

## 1.1 Mynediad arolwg

| Cam y gwaith | Ffi Sefydlog (+TAW) |
|---|---|
| Negodi trwydded mynediad arolwg anymwthiol | £250 |
| Negodi trwydded mynediad arolwg ymwthiol | £250 |

## 1.2 Holiadur buddiant tir

| Cam y gwaith | Ffi Sefydlog (+TAW) |
|---|---|
| Cwblhau Holiadur Buddiant Tir | £150 |

## 1.3 Ymgynghoriad

Mae hyn yn cynnwys amser ar gyfer cyfarfodydd gyda'ch asiant/parti â diddordeb a chynrychiolwyr Green Gen Cymru, yn ogystal â chwblhau Amserlenni Cadarnhau. Mae'r cap ffi hwn yn cwmpasu'r amser a dreulir hyd at y pwynt y cyhoeddir Penawdau'r Telerau neu y caiff eich tir ei dynnu o ffiniau'r prosiect. Bydd unrhyw amser a dreulir o dan Ymgynghoriad yn gofyn am gyflwyno taflenni amser i Green Gen Cymru neu eu cynrychiolwyr i'w hadolygu cyn cynhyrchu anfoneb.

| Cam y gwaith | Cap Ffi (+TAW) |
|---|---|
| Ymgynghoriad rhwng yr asiant, y parti â diddordeb a chynrychiolwyr Green Gen Cymru. | £750 |

## 1.4 Penawdau'r telerau

Bydd trafod Cytundeb Opsiwn neu iawndal ychwanegol yn cael ei gynnwys ar sail lefel hawliad fel y nodir isod.

| Cam y gwaith | | Ffi Sefydlog (+TAW) |
|---|---|---|
| Negodi a chwblhau Cytundeb Opsiwn | ***Lefel yr Iawndal*** | ***Cyfradd Sefydlog*** |
| | £1 - £500 | £650 |
| | £500 - £1,000 | £875 |
| | £1,000 - £2,500 | £970 |
| | £2,500 - £5,000 | £1,100 |
| *Os yw swm yr iawndal yn fwy na £50,000 yna cyfrifir y ffi gyfan yn gyfangwbl ar sail cyfradd fesul awr.* | Gweddill | 2.5% |

## 1.5 Cyfradd fesul awr

Efallai y bydd amgylchiadau lle telir ffioedd fesul awr, a rhaid cytuno ar hynny gyda Green Gen Cymru neu eu cynrychiolwyr ymlaen llaw cyn unrhyw amser neu gostau.

| Lefel | Cyfradd fesul awr |
|---|---|
| Cyfarwyddwr | £150 |
| Cyfarwyddwr Cyswllt/Cydymaith Uwch | £125 |
| Syrfëwr | £115 |
| Syrfëwr | £100 |
| Graddedig | £70 |

## 1.7 Amser teithio

1.7.1 Bydd treuliau sy'n gysylltiedig â theithio yn cael eu had-dalu yn unol â chyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau EM ar sail ceiniogau y filltir. Rhaid cytuno ar gyfradd fesul awr briodol i gyfrif am yr amser teithio rhesymol a gafwyd os cytunwyd ar sail tâl amser.

1.7.2 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd Green Gen Cymru yn talu am gostau teithio a achosir y tu allan i'r rhanbarth lle mae'r gwaith wedi'i leoli. Dylid ffafrio'r arbenigedd lleol mwyaf priodol.

## 1.6 TAW

Pan fydd yr asiant yn codi TAW, bydd Green Gen Cymru yn ad-dalu'r elfen TAW i'r graddau na all yr hawlydd ei hadennill. I ad-dalu, bydd Green Gen Cymru angen cadarnhad o statws TAW y partïon â diddordeb cyn unrhyw ad-daliad.



## 1.8 Rhwymedigaethau asiant

1.8.1 Bydd y berthynas gytundebol ar gyfer ffioedd asiant proffesiynol rhwng yr asiant a'r buddiant tir. Y buddiant tir sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am ffioedd; fodd bynnag, mae gan fuddiannau tir hawl i hawlio ffioedd proffesiynol rhesymol a chymesur yn ôl gan Green Gen Cymru. Mae hyn yn unol â datganiadau proffesiynol gan RICS a CAAV mewn perthynas â ffioedd.

1.8.2 Bydd Green Gen Cymru yn dilyn Datganiad Proffesiynol RICS sy'n cynghori Syrfewyr ynghylch prynu gorfodol ac iawndal mewn perthynas â ffioedd.

1.8.3 Rhaid i asiantau gyflenwi Telerau Ymgysylltu i'w cleient sy'n manylu ar gwmpas y gwaith a'r gweithgareddau i'w gwneud. Rhaid i'r Telerau Ymgysylltu hefyd gynnwys y cyfraddau yn seiliedig ar swydd o fewn y cwmni. Dylid cyflenwi copi o'r Telerau Ymgysylltu wedi'u llofnodi i asiant penodedig Green Gen Cymru i gadarnhau'r cyfarwyddyd cyn y bydd unrhyw gostau'n cael eu hysgwyddo.

1.8.4 Dylai hynafedd a phrofiad yr unigolyn sy'n cynrychioli parti â diddordeb fod yn briodol ar gyfer y gweithgaredd sy'n cael ei wneud a gall amrywio ar gyfer gwahanol agweddau ar y cynllun ac ymgysylltu â Green Gen Cymru. Mae angen cytuno ar yr unigolion a'r lefelau arfaethedig rhwng y partïon cyn i'r gwaith ddechrau.

1.8.5 Bydd Green Gen Cymru yn ei ystyried yn rhesymol cyflwyno hawliadau dros dro mewn perthynas ag ad-dalu ffioedd asiantau bob chwarter. Bydd angen cytuno ar unrhyw wyriad arfaethedig o hyn gyda Green Gen Cymru gydag esboniad ar y dechrau.

1.8.6 Ni fydd angen cyflwyno taflenni amser ar gyfer gwaith ffi sefydlog.

1.8.7 Bydd angen cyflwyno taflenni amser manwl i Green Gen Cymru neu eu hasiantau penodedig i'w hadolygu a'u cymeradwyo cyn cyflwyno anfoneb ar gyfer unrhyw anfonebau a gyflwynir am amser a gronnwyd o dan gap ffioedd, neu unrhyw gyfradd fesul awr. Os nad yw geiriad cofnod taflen amser yn cefnogi nifer yr oriau sy'n cael eu hawlio, efallai y bydd yn rhaid i Green Gen Cymru neu eu cynrychiolwyr ofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad. Unwaith y bydd Green Gen Cymru neu eu cynrychiolwyr wedi cymeradwyo'r taflenni amser, gellir cyflwyno anfoneb.

1.8.8 Ni fydd Green Gen Cymru yn talu ffioedd am unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun ac ni fyddant yn talu unrhyw ffioedd trydydd parti am lunio gwrthwynebiad.

1.8.9 Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr ad-daliad am waith penodol, mae Green GEN Cymru yn awgrymu bod hyn yn cael ei godi cyn i'r amser neu'r gost gael eu hysgwyddo.

1.8.10 Os bydd Green Gen Cymru yn rhoi'r gorau i'w waith cyn gwneud y gwaith, ac eithrio o ganlyniad i sylwadau a wnaed gan yr hawlydd, bydd ffi'r asiant am fethu â'i wneud yn cael ei had-dalu ar sail tâl amser. Ni fydd hyn yn fwy na'r ffi a fyddai wedi bod yn daladwy fel arall.

1.8.11 Asiantau i adolygu a bod yn ymwybodol o'r Hawliau dros dir ar gyfer seilwaith trydan - Cod Ymarfer (CAAV, RICS, ENA).

1.8.12 Disgwylir i asiantau ddilyn Safon Broffesiynol RICS 'Syrfewyr yn cynghori ynghylch prynu gorfodol ac iawndal statudol', DU, 2il argraffiad (fel y gellid ei amnewid neu ei ddiwygio).

## 1.9 Anfonebu

1.9.1 Dylid cyflwyno anfonebau i'r parti â diddordeb fel cleient a'u cyfeirio at y parti â diddordeb. Dylid nodi bod anfonebau'n daladwy gan Green Gen Cymru.

1.9.2 Bydd Green Gen Cymru yn ad-dalu asiantau'n uniongyrchol yn amodol ar i'r asiant gael ffurflen rhyddhau taliad wedi'i llofnodi gan y parti sydd â diddordeb.